

Patrwm cyflwyno

O fis Hydref i fis Medi

Disgrifiad o'r cwrs

Y Prosiect Prentisiaeth Cyfrifiadura a TG yw'r prif fodiwl prosiect gorfodol ar gyfer rhaglenni Prentisiaeth Gradd Israddedig/Prentisiaeth Ôl-raddedig yn Lloegr a'r Alban. Bydd myfyrwyr yn cymhwyso egwyddorion a thechnegau uwch, gan ddangos tystiolaeth o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau a ddysgwyd ym modiwlau blaenorol eu prentisiaeth gradd/prentisiaeth ôl-raddedig. Byddant yn gyfrifol am ddewis eu pwnc eu hunain wrth drafod â'u cyflogwr, gan gyflawni'r prosiect a'i ysgrifennu ar ffurf adroddiad sylweddol. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu canfyddiadau fel rhan o'u LCA.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylai fod gennych dystiolaeth o'r canlynol:

- cymwysterau neu brofiad cyfredol ym maes Cyfrifiadura neu TGCh (gan gynnwys cyfathrebu digidol)
- profiad perthnasol ym maes o leiaf un o'r arbenigeddau yn ein rhaglenni (seiberdiogelwch, dadansoddi data, peirianeg meddalwedd/datblygu meddalwedd neu beirianeg rhwydwaith)
- profiad o asesu gwaith prosiect mewn sefyllfa academiaidd neu fusnes
- y gallu i fodloni manyleb y person ar gyfer modiwl Cyfrifiadura neu TGCh Cam 3 (Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) Lefel 6 neu Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS) Lefel 10) sydd wedi'i chynnwys yn y graddau prentisiaethau yn ein cwricwlwm.
- parodrwydd i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau Cyfrifiadura a TGCh wrth iddynt ddatblygu yn ystod oes y modiwl
- parodrwydd i gymhwyso cynlluniau asesiadau fel y'u manylir gan safonau a fframweithiau prentisiaeth perthnasol
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau allweddol cyffredinol ac ymarfer myfyriol sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect
- y gallu i ddefnyddio cyfathrebu cyfrifiadurol (CMC) a chyfrifiaduron a'r rhyngwrdd at ddibenion addysgu a dysgu (gan gynnwys e-bost a chynadledda), a pharodrwydd i sicrhau bod y wybodaeth honno'n gyfredol
- bod ar gael yn ystod y diwrnod busnes i gyfathrebu â'r prentisiaid a'u rheolwyr llinell.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar dystiolaeth o'r canlynol:

- profiad o oruchwylio gwaith prosiect mewn amgylchedd academiaidd neu ddiwydiannol
- diddordeb yn y materion cyffredinol sy'n ymwneud â thechnolegau cyfrifiadura, gwybodaeth a chyfathrebu (gan gynnwys rhai technegol-gymdeithasol)
- gwybodaeth arbenigol ychwanegol am o leiaf un o'r arbenigeddau yn ein cwricwlwm (hynny yw, seiberdiogelwch, dadansoddi data, peirianeg meddalwedd/datblygu meddalwedd neu beirianeg rhwydwaith)
- profiad o addysgu modiwl Cyfrifiadura neu TGCh israddedig neu brofiad perthnasol yn y maes (bydd yn ofynnol i chi ymgyfarwyddo ag un o feysydd cam 3 (Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) Lefel 6 neu Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS) Lefel 10) cwricwlwm Y Brifysgol Agored.
- dealltwriaeth o ofynion asesu un neu fwy o safonau neu fframweithiau prentisiaeth perthnasol y mae ein prentisiaid yn eu dilyn.

- dealltwriaeth o'r gofynion prosiect ar gyfer Cymdeithas Cyfrifiadura Prydain (BCS) neu'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

Gwybodaeth ychwanegol

- Rôl y darlithydd cyswllt yw rhoi cymorth ar-lein a dros y ffôn (y bydd rhywfaint ohono yn ystod y diwrnod busnes ar adeg y cytunir arni rhyngoch chi, y prentis, y rheolwr llinell a'r tiwtor ymarfer) ar gyfer hyd at saith myfyriwr, a marcio tri aseiniad a'r adroddiadau prosiect ar gyfer pob un o'i fyfyrwyr. Caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig. At hynny, disgwylir i ddarlithwyr cyswllt gymryd rhan mewn fforymau cymheiriaid a fforymau grwpiau myfyriwr a chyfathrebu drwy e-bost. Hefyd, gall fod disgwyl i ddarlithwyr cyswllt ailfaricio adroddiadau prosiect myfyriwr darlithydd cyswllt arall ac efallai y bydd gofyn iddynt gydweithio ag eraill fel cymedrolwr i argymhell marc terfynol ar gyfer adroddiadau unigol.
- Byddwn yn disgwyl i diwtoriaid ymgysylltu â gofynion Cymdeithas Cyfrifiadura Prydain a safonau neu fframweithiau prentisiaeth perthnasol o ran prosiectau unigol a, lle y bo angen, asesiadau terfynol.
- Byddwn yn disgwyl i diwtoriaid fod yn barod i oruchwylio prosiectau ar draws ystod o brosiectau cyfrifiadura a TGCh yn eu maes cymhwysedd galwedigaethol. Mae'r meysydd yn cynnwys peirianneg meddalwedd, dadansoddwr seiberddiogelwch, dadansoddwr data a pheiriannydd rhwydwaith.
- Lle y bo angen, byddwn yn disgwyl i diwtoriaid farcio a chymryd rhan yn asesiad terfynol eu prentisiaid am ffi ychwanegol. Byddwn yn annog tiwtoriaid i fod yn rhan o'r ail broses marcio ac asesiad terfynol prentisiaid mewn grwpiau tiwtoriaid eraill.

Deunydd darllen pellach:

Digital Technology Solutions Professional Apprenticeship standard

(Lloegr) <https://www.instituteforapprenticeships.org/apprenticeship-standards/digital-and-technology-solutions-professional-integrated-degree/>

Graduate Apprenticeships Software Development framework (Yr

Alban) <https://www.apprenticeships.scot/for-employers/browse-frameworks/graduate-apprenticeships/it-software-development-scqf-level-10/>

Graduate Apprenticeships Cyber Security framework (Yr

Alban) <https://www.apprenticeships.scot/for-employers/browse-frameworks/graduate-apprenticeships/cyber-security-scqf-level-10/>

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r 30 modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyriwr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	6
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.6